Trawsgrifiad

Jess Blair, Cyfarwyddwr Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru: Efallai fod y term 'newyddion ffug' wedi dechrau gyda chyn-Arlywydd UDA yn gweiddi 'newyddion ffug' ar bob cyfle, ond mae'n rhywbeth sy'n gwneud y math hwn o sgwrs yn llawer mwy hygyrch.

Philip Seargeant, Uwch-ddarlithydd mewn Ieithyddiaeth Gymhwysol, y Brifysgol Agored: Ystyr sylfaenol 'newyddion ffug' yw gwybodaeth sy'n ffug neu sydd wedi'i chreu ac sy'n cael ei chyflwyno fel newyddion ac, felly, fel gwybodaeth wir. Mae'n rhywbeth a allai effeithio ar bob un ohonom a'r ffordd rydym yn byw ein bywydau.

[Cerdyn teitl]

Newyddion ffug, camwybodaeth a thwyllwybodaeth yng Nghymru

[Capsiwn ar y sgrin - Diffiniad geiriadur Saesneg o dwyllwybodaeth]

disinformation
[dis-in-fer-mey-shu*h*n]
deliberately misleading or biased information manipulated narrative or facts

Philip Seargeant: Mae twyllwybodaeth yn wybodaeth ffug sydd wedi'i chreu'n fwriadol ac, felly, mae'n aml yn fath o bropaganda.

[Capsiwn ar y sgrin - Diffiniad geiriadur Saesneg o gamwybodaeth]

misinformation
[mis-in-fer-mey-shu*h*n]
false information that is spread, regardless of intent to mislead

Philip Seargeant: Camwybodaeth yw lle mae'r wybodaeth ffug yn fwy damweiniol ond mae'n dal i fod yn ffug ac, felly, gall achosi cryn dipyn o drafferth o hyd.

Er mwyn deall goblygiadau 'newyddion ffug' mewn gwahanol leoedd, mae'n rhaid i chi ddeall amgylchedd y cyfryngau yn y lle hwnnw ac, yn arbennig, wendidau'r amgylchedd hwnnw.

Jess Blair: Mae Cymru yn fwy agored i gamwybodaeth a thwyllwybodaeth. Yn rhannol oherwydd, os na all pobl yng Nghymru gael newyddion o ansawdd da am Gymru o ffynonellau cyfryngol Cymreig, ble maent yn cael eu gwybodaeth? Ac maent yn cael eu gwybodaeth o ffynonellau yn y DU yn bennaf nad ydynt wir yn deall Cymru nac yn adlewyrchu Cymru yn ôl i'r bobl yma, neu mae'n dod o'r cyfryngau cymdeithasol.

[Cerdyn teitl]

Tirwedd y cyfryngau yng Nghymru

Philip Seargeant: Un o'r ystyriaethau pwysig o ran camwybodaeth a thwyllwybodaeth yng nghyd-destun Cymru yw'r cysyniad o ddatganoli yn gyffredinol. Datganoli oedd y broses o symud rhai pwerau o Senedd y DU, sydd wedi'i lleoli yn San Steffan, i seneddau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Shaun Bendle, Founder @ThatsDevolved: Cyfrif Twitter yw 'That's Devolved' a sefydlwyd gyda'r nod o gywiro'r cyfryngau pan fyddant yn cyhoeddi gwybodaeth anghywir mewn perthynas â datganoli a

rhoi gwybodaeth i bobl fel eu bod yn deall y gwahaniaeth y mae'n ei wneud a, gobeithio, wneud newid fel yna.

Felly, dim ond pedwar neu bum gohebydd fydd yn cyflwyno adroddiadau am y Senedd ac, er y byddant yn sicrhau bod rhywfaint o'r wybodaeth yn cyrraedd y cyhoedd, fyddwch chi byth yn cael yr un lefel o waith craffu.

Will Hayward, Golygydd Materion Cymreig WalesOnline: Mae cymharu cyfryngau'r DU gyfan a'r cyfryngau sy'n ymwneud yn benodol â Chymru yn debyg i gymharu afalau a gellyg. Felly, mae Cymru, yn arbennig datganoli, yn newydd iawn – ac mae Fleet Street, er enghraifft, wedi cael canrifoedd i ddatblygu, nid yn unig gynulleidfa o ddarllenwyr ond hefyd, yn hanfodol ddigon, gylchoedd dylanwad a meysydd y byddent yn ymdrin â nhw. Felly, yng Nghymru rydym wedi cael dau ddegawd i wneud hynny.

Bu lleihad yn nifer y papurau newydd sy'n cael eu gwerthu yng Nghymru, yn debyg i bob man arall, ond mae hyn wedi cael ei wrthbwyso gan dwf cyfryngau ar-lein.

Ar ddechrau'r pandemig, roedd Mark Drakeford yn fwy na rhyw ddyn yr oeddech yn ei weld yn achlysurol ond nad oeddech wir yn gwybod pwy ydoedd. Roedd yn ddyn a allai benderfynu a allech ymweld â'ch mam mewn cartref gofal.

[Darn o fideo – Sesiwn friffio Llywodraeth Cymru am Covid-19 10 Mai 2020]

> **Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru:** Byddwn yn parhau i wneud penderfyniadau sy'n iawn i Gymru gan ddefnyddio gwybodaeth a chyngor arbenigol ynglŷn â sut mae'r Coronafeirws yn cylchredeg yma i'n cadw ni i gyd yn ddiogel.

Will Hayward: Yn ystod yr 16 mis diwethaf, mae'r awydd i gael cyfryngau sy'n ymwneud yn benodol â Chymru wedi cynyddu'n sylweddol oherwydd, o'r diwedd, mae'n berthnasol i fywyd pobl bob dydd.

[Cerdyn teitl]

> Esbonio newyddion ffug, camwybodaeth a thwyllwybodaeth

Philip Seargeant: Mae pandemig Covid-19 yn enghraifft dda iawn, am fod gwir eisiau gwybodaeth ddibynadwy arnoch, er mwyn i bobl wybod beth y gallant ei wneud a beth y dylent fod yn ei wneud. A gall esgor ar ganlyniadau difrifol iawn am fod hyn yn ymwneud, yn y pen draw, â materion sy'n ymwneud â bywyd a marwolaeth.

Will Hayward: Ym mis Mai 2020, roedd yn ymddangos bod Llywodraeth y DU yn mynd ei ffordd ei hun yn achos Lloegr. Dywedodd Boris Johnson y gallwch bellach yrru mor bell ag y mynnoch.

[Darn o fideo – Datganiad gan y Prif Weinidog, 10 Mai 2020]

> **Boris Johnson AS, Prif Weinidog:** Rydym yn cymryd y camau gofalus cyntaf i addasu ein mesurau. Ac o ddydd Mercher ymlaen, rydym am annog pobl i wneud mwy o ymarfer corff a hyd yn oed faint bynnag o ymarfer corff a fynnont yn yr awyr agored. Gallwch eistedd yn yr haul yn eich parc lleol, gallwch yrru i gyrchfannau eraill.

Will Hayward: Anerchodd y cyhoedd ym Mhrydain gan ddweud y gallwch deithio mor bell ag y mynnoch. Roedd yn rhaid i Lywodraeth Cymru ymateb ar unwaith, gyda phenaethiaid yr heddluoedd yng Nghymru yn dweud na allwch deithio i Gymru o hyd, ac nad yw'n cael ei ganiatáu.

[Darn o fideo – Datganiad gan y Prif Weinidog, 10 Mai 2020]

> **Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru:** Noswaith dda. Heno, mae'r Prif Weinidog wedi nodi'r mân newidiadau y bwriedir eu gwneud i reolau'r cyfyngiadau symud yn Lloegr dros y tair wythnos nesaf. Nid yw ein cyngor wedi newid yng Nghymru. Os gallwch wneud hynny, dylech aros gartref.

Shaun Bendle: Gall y rhain esgor ar ganlyniadau difrifol iawn. Rydych wedi clywed am achosion o bobl sydd wedi gyrru cannoedd o filltiroedd o ddinas yn Lloegr er mwyn dringo'r Wyddfa neu ymweld â thraeth yng Nghymru ac sydd wedi cael eu harestio wrth wneud hynny.

Will Hayward: Roedd honno yn enghraifft glir iawn i mi o adeg pan oedd yr hyn a oedd, i bob pwrpas, yn gamwybodaeth wedi dod o'r lefel uchaf o lywodraeth yn y DU. Roedd yn anghywir. Rwy'n credu bod llawer o enghreifftiau o gamwybodaeth a effeithiodd ar Gymru yn benodol y gallwch gyfeirio atynt. Felly, er enghraifft, cafwyd achosion o'r frech goch yn Abertawe, cafwyd achosion mewn sawl rhan o dde Cymru a'r unig reswm y digwyddodd hynny oedd bod camwybodaeth am frechlynnau wedi'i lledaenu.

Jess Blair: Yn bendant, ni all gwleidyddion ddweud bod ganddynt ddwylo glân pan ddaw'n fater o gamwybodaeth. Fel y gwyddoch, dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi gweld gwleidyddion a phleidiau gwleidyddol, yn enwedig ar adeg etholiad, yn cefnogi'r elfen hon o 'newyddion ffug'.

[Cerdyn teitl]

> Sut mae newyddion ffug yn cyfrannu at y diffyg democrataidd.

Philip Seargeant: Yn syml iawn, mae'r diffyg democrataidd yn golygu nad yw pobl yn credu bod y system wleidyddol yn cadw at ei hegwyddorion democrataidd. Mae diffyg rhwng yr hyn y mae pobl yn credu y dylai'r system fod yn ei wneud, pa mor ddemocrataidd y dylai'r system fod, a pha mor ddemocrataidd ydyw mewn gwirionedd.

Jess Blair: Yn fras, mae'n dinistrio ymddiriedaeth. Felly, ar ryw fath o ficrocosm, efallai y byddech yn gweld rhywbeth sy'n ffug ar y cyfryngau cymdeithasol ac a allai effeithio ar eich ymddiriedaeth mewn gwleidyddiaeth, neu wleidyddion neu'r newyddion. Ac mae hynny yn cael effaith wirioneddol ar ddemocratiaeth, wyddoch chi, os na fydd pobl yn ymddiried yn y wybodaeth y maent yn ei chael, maent yn amau popeth.

Will Hayward: Y broblem gydag ymadroddion fel 'newyddion ffug' yw y gallant olygu unrhyw beth i unrhyw un ac, os byddwch yn dechrau labelu hyn fel 'newyddion ffug', 'newyddion ffug' yw hwn, mae'n tanseilio ymddiriedaeth pobl mewn newyddion yn gyffredinol. Ac rydym yn gwybod pam mor bwysig yw cyfryngau credadwy y gellir ymddiried ynddynt. Yn arbennig, wrth i fwy o gamwybodaeth gael ei lledaenu ledled y byd.

[Cerdyn teitl]

> Beth y gellir ei wneud i fynd i'r afael â newyddion ffug.

Philip Seargeant: Wrth reswm, mae nodi bod 'newyddion ffug' yn broblem yn bwysig ond dim ond y cam cyntaf yw hwn mewn gwirionedd. Wedyn, mae angen i chi weithio allan beth y gallwch ei wneud yn ei gylch. Beth y gallwch ei wneud i fynd i'r afael ag ef. Ac, yn y bôn, gall hynny ddigwydd ar dair lefel Yn gyntaf, mae'r unigolyn. Gall yr unigolyn gymryd camau penodol.

Shaun Bendle: Mae'n amlwg bod dadl ar y ddwy ochr dros sicrhau bod pobl sy'n lledaenu'r wybodaeth yn dweud y peth iawn ac nad ydynt yn dweud celwydd yn fwriadol ac nad ydynt yn gwneud camgymeriadau yn yr hyn y maent yn ei ddweud. Wrth gwrs, rwy'n mynd i hyrwyddo 'That's Devolved', ond yn fy marn i, yng Nghymru er enghraifft, mae gan wasanaeth Ymchwil y Senedd ddadansoddiadau o wahanol feysydd polisi sy'n hawdd iawn i'w deall.

Will Hayward: Mae'n rhaid i chi fod yn amheus bob amser ond nid yw bod yn amheus yn golygu peidio â chredu unrhyw beth. Os yw popeth yn 'newyddion ffug', yna mae'n amhosibl anwybyddu'r pethau sy'n sothach, yn gelwyddau ac yn anghywir mewn gwirionedd.

Philip Seargeant: Yn ail, mae gennych y rôl y gall y cwmnïau cyfryngol ei chwarae ac y dylent fod yn ei chwarae, o bosibl.

Jess Blair: Mae cyfrifoldeb yma ar sefydliadau newydd, ar sefydliadau gwleidyddol, i wneud yn siŵr bod y wybodaeth y maent yn ei chyhoeddi yn gywir ac yn dryloyw ac y gellir rhoi cyfrif amdani.

Will Hayward: Yn fy marn i, mae meithrin ymddiriedaeth pobl yn un o'r pethau allweddol i wrthsefyll camwybodaeth. Fel gohebydd, un o'r pethau allweddol rwy'n ceisio ei wneud yw dangos sut rydym wedi cael straeon. Felly, er enghraifft, rwy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol cryn dipyn i esbonio sut y cefais y wybodaeth hon a pham mae mor berthnasol, yn fy marn i.

Jess Blair: Un o'r pethau hawsaf y gellir ei wneud yw defnyddio imprintiau. Felly, ar adeg etholiad, pan fyddwch yn cael taflen drwy'r drws, bydd peth bach yn y gornel sy'n dweud pwy a luniodd y daflen a thalu amdani. Does dim byd tebyg ar y cyfryngau cymdeithasol. Felly, gallai unrhyw fod wedi cyhoeddi'r hysbysebion rydych yn eu gweld. Felly, un o'r pethau mwyaf a hawsaf y gallem ei wneud yw ei gwneud yn ofynnol i hysbysebion ar-lein, ar ymgyrchoedd digidol, gynnwys y math hwnnw o imprint sy'n dweud pwy dalodd amdanynt.

Philip Seargeant: Ac, yn olaf, mae rôl i'r Llywodraeth. Gall y Llywodraeth ei hun gymryd camau penodol o ran rheoleiddio, er enghraifft, y cyfryngau cymdeithasol.

Jess Blair: Gall Llywodraeth Cymru wneud ychydig a dylai fod yn ei wneud, felly mae hynny'n cynnwys edrych i weld a all helpu i gefnogi rhyw fath o wasanaeth newyddion annibynnol yng Nghymru. Mae cyfrifoldeb yn hyn o beth, o ran lleoliadau addysg, felly rydym yn sôn am wella addysg wleidyddol mewn ysgolion, colegau, a sefydliadau dysgu gydol oes.

Will Hayward: Mae camwybodaeth yn tueddu i dargedu'r mannau hynny lle mae pŵer a lle mae penderfyniadau yn cael eu gwneud a pho fwyaf o benderfyniadau sy'n cael eu gwneud yng Nghymru a pho fwyaf o bŵer a ddelir yma, y mwyaf tebygol ydyw y caiff ei hamlygu i gamwybodaeth.